

<b>Planning</b>	<b>Cymorth</b>
<b>Aid</b>	<b>Cynllunio</b>
<b>Wales</b>	<b>Cymru</b>



# **Cymorth Cynllunio Cymru**

**Cynllun iaith a baratowyd dan y Ddeddf Iaith Gymraeg 1993**

**Cafodd y Cynllun hwn ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith  
Gymraeg dan adran 14(1) ar 9 Awst 2007**

Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth ymwneud â busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin yr iaith Saesneg a'r iaith Gymraeg yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn gosod allan sut bydd Cymorth Cynllunio Cymru yn gweithredu'r egwyddor yna pan yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

## 0. RHAGYMDRODD

Fel elusen gofrestredig a chwmni'n gyfyngedig dan warant, rôl Cymorth Cynllunio Cymru (CCC) yw rhoi cyngor annibynnol, am ddim, i unigolion a grwpiau sydd cymorth help arnynt i weld eu ffordd o amgylch y system gynllunio. Mae gan y cwmni swyddfeydd ym Mae Caerdydd, Caerdydd a Phenygroes, Caernarfon.

Rheolir CCC gan Fwrdd o Gyfarwyddwyr gyda phymtheg aelod a chyflogir pedwar aelod o staff.

Mae CCC yn gweithredu trwy wasanaeth llinell gymorth a reolir ac a weithredir gan y Cynllunio a Chynghorydd Cynllunio locwm yn y swyddfa yng Nghaerdydd. Mae rhestr ar gael o wirfoddolwyr sy'n gallu helpu ar achosion mwy o faint neu os oes angen siaradwr Cymraeg.

Mae arian gan Lywodraeth y Cynulliad wedi galluogi cyflogi swyddog datblygu er mwyn symud CCC i gyfeiriad datblygiad cymunedol yn cynnwys addysg, hyfforddiant a meithrin gallu. Ar hyn o bryd, mae'r swyddog datblygu rhan-amser, sydd ym Mhenygroes, yn gweithio ar hyfforddi a datblygu cymunedau, cynghorau cymuned a thref, sefydliadau gwirfoddol a grwpiau gyda buddiannau penodol eraill i'w helpu i ddeall a chyfranogi'n llawnach yn y system gynllunio yng Nghymru.

Yn y pen draw, mae cyfrifoldeb cyfundrefnol Cymorth Cynllunio Cymru yn nwylo'r Prif Weithredwr sy'n rhannu ei amser rhwng y swyddfeydd ym Mhenygroes a Chaerdydd. Cefnogir y tîm gan weinyddydd rhan-amser yn y swyddfa yng Nghaerdydd.

Ar hyn o bryd nid oes un o'r disgrifiadau swydd yn gofyn am sgiliau iaith, ac eithrio'r Swyddogion Datblygu yng ngogledd a chanolbarth Cymru, lle mae bod yn rhugl yn Gymraeg yn hanfodol. Mae'r staff presennol yn cynnwys un Gymraes rhugl (Swyddog Datblygu Gogledd a Chanolbarth Cymru) a dysgwr Cymraeg (y Prif Weithredwr).

Gellir cael mwy o fanylion am Gymorth Cynllunio Cymru yn [www.cymorthcynlluniocymru.org.uk](http://www.cymorthcynlluniocymru.org.uk)

## 1. CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETH

### 1.1. Polisiau a Mentrau Newydd

- 1.1.1. Bydd CCC yn sicrhau bydd y polisiau a'r mentrau newydd yn hwyluso'r defnydd o Gymraeg lle bynnag fo hyn yn bosibl a symud y sefydliad yn nes at weithredu'r egwyddor o gyfartaledd bob cyfle gaiff.
- 1.1.2. Pan yn datblygu polisiau a mentrau newydd neu'n adolygu rhai presennol bydd CCC yn asesu eu heffaith ieithyddol, gan sicrhau eu bod yn cydfynd â'r cynllun hwn ac yn sicrhau fod gweithredu ar y mesurau o fewn y cynllun hwn pan yn gweithredu polisiau neu fentrau eraill.
- 1.1.3. Bydd CCC yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg o flaen llaw parthed cynigion fydd yn effeithio ar y cynllun hwn neu fydd yn effeithio ar gynlluniau sefydliadau eraill.
- 1.1.4. Ni fydd CCC yn newid y cynllun hwn heb gytundeb Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- 1.1.5. Bydd CCC yn sicrhau fod staff a chynghorwyr sy'n ymwneud â chreu polisiau'n ymwybodol o'r cynllun hwn.

## **1.2. Darpariaeth a Safon y Gwasanaeth yn Gymraeg**

- 1.2.1. Bydd yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Mae CCC yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o safon uchel a chydardd yn Gymraeg a Saesneg.
- 1.2.2. Bydd gweithredu'r cynllun hwn yn rhan annatod o holl weithgareddau CCC.
- 1.2.3. Cyflawnir gweithredu'r cynllun trwy gynnwys gwariant a defnydd o adnoddau ar wasanaethau iaith Gymraeg yng nghyllideb cyffredinol gwasanaethau craidd a phrosiectau CCC, a thrwy hyn, gwneud darpariaeth yn yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o weithgareddau CCC.

## **2. DELIO GYDA'R CYHOEDD CYMRAEG EU HIAITH**

### **2.1. Cyfathrebu Ysgrifenedig**

- 2.1.1. Mae CCC yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.
- 2.1.2. Bydd llythyrau ac e-byst a dderbynir yn cael eu hateb yn yr iaith a ddefnyddir yn yr ohebiaeth wreiddiol. Ni fydd amser ymateb i ohebiaeth Gymraeg yn hwy nag i ohebiaeth Saesneg.
- 2.1.3. Cynhwysir gwybodaeth ar hoff iaith/ieithoedd y gohebydd ar gyfer gohebiaeth yng nghronfa data cyswllt CCC a bydd CCC yn dewis pa iaith/ieithoedd gohebiaeth ar gyfer y gohebydd.
- 2.1.4. Bydd cylch-lythyrau a llythyrau safonol i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.
- 2.1.5. Bydd llofnodion e-bost yn ddwyieithog.

### **2.2. Cyfathrebu ar y Ffôn**

- 2.2.1. Cyferchir pob galwr i'r llinell gymorth yn ddwyieithog.
- 2.2.2. Os yw galwr i'r llinell gymorth am siarad â rhywun sy'n siarad Cymraeg ac efallai nad yw'r person sy'n ateb y ffôn yn siarad Cymraeg eu hunain, cyfeirir y galwr at weithiwr/wraig neu wirfoddolwr/wraig Cymraeg eu hiaith ar unwaith neu, os nad yw hyn yn bosibl bydd gweithiwr/wraig neu wirfoddolwr/wraig sy'n siarad Cymraeg yn ffonio'n ôl ar adeg sy'n gyfleus i'r galwr.

### **2.3. Cyfarfodydd Cyhoeddus**

- 2.3.1. Mae CCC yn ymrwymedig i sicrhau fod pobl sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau hyfforddi yn gallu ac yn cael eu croesawu i gyfrannu yn Gymraeg neu Saesneg, ac i adael iddynt wybod o flaen llaw eu bod yn gallu gwneud hynny.
- 2.3.2. Bydd CCC yn sefydlu beth yw hoff iaith y cyfranogwyr cyn pob cyfarfod cyhoeddus a digwyddiad hyfforddi ac yn trefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd os bydd angen.

- 2.3.3. Os bydd cyfranogwr yn dymuno siarad yn Gymraeg pan nad oes cyfieithydd ar y pryd ar gael, bydd yr hwylusydd yn sicrhau y ceir eu cyfraniad ei gyfieithu er budd unrhyw gyfranogwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg.
- 2.3.4. Bydd deunyddiau cyflwyno CCC yn ddwyieithog.

## **2.4. Cyfarfodydd nad ydynt yn gyhoeddus**

- 2.4.1. Rhoddir dewis i gleientiaid a ydynt am drafod eu hachos yn Saesneg neu yn Gymraeg a neilltuir aelod staff neu wirfoddolwr/wraig gyda'r sgiliau iaith perthnasol i ddelio gyda'u hachos.

## **2.5. Cyfathrach arall gyda'r cyhoedd**

- 2.5.1. Bydd cynrychiolwyr CCC Cymraeg eu hiaith mewn ffeiriau ac arddangosfeydd yn gwisgo bathodyn Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn dangos eu bod yn hapus i sgwrsio yn Gymraeg.

# **3. WYNEB CYHOEDDUS CYMORTH CYNLLUNIO CYMRU**

## **3.1. Delwedd neu hunaniaeth corfforaethol**

- 3.1.1. Bydd CCC yn mabwysiadu a chyflwyno hunaniaeth gorfforaethol gwbl ddwyieithog yn cynnwys yr enw, cyfeiriad, logo a datganiad cenhadaeth ar holl ddeunyddiau'r sefydliad, yn cynnwys papur gohebu, cardiau busnes a.y.y.b.

## **3.2. Arwyddion a deunyddiau arddangosfa**

- 3.2.1. Bydd holl arwyddion cyhoeddus a deunyddiau arddangosfa yn ddwyieithog. Bydd print Cymraeg a Saesneg yn union yr un maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd.
- 3.2.2. Ar fyrddau arddangos bydd gwybodaeth yn cael ei arddagnos yn y ddwy iaith ochr yn ochr.

## **3.3. Cyhoeddi ac argraffu deunydd i'w roi i'r cyhoedd**

### **3.3.1. Egwyddorion cyffredinol**

- 3.3.1.1. Cynhyrchir holl ddeunydd argraffedig ac arwyddion ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog a bydd eu hygyrchedd yn gyfartal
- 3.3.1.2. Bydd print Cymraeg a Saesneg yn ymddanogs yr un faint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd.
- 3.3.1.3. Bydd deunydd yn y ddwy iaith o'r un safon proffesiynol.
- 3.3.1.4. Ymgwymerir â chyfieithu (Cymraeg - Saesneg a Saesneg - Cymraeg) gan gyfieithwyr proffesiynol, profiadol.

### **3.3.2. Deunyddiau argraffedig**

- 3.3.2.1. Bydd pob deunydd cyhoeddus argraffedig megis llawlyfrau, Adroddiadau Blynyddol, taflenni a datganiadau, yn ddwyieithog h.y.

gyd'r ddwy iaith yn yr un ddogfen, ac un bob ochr i'r ddalen yn ddelfrydol. Os nad yw'n bosibl cyhoeddi dogfen mewn fformat dwyieithog, bydd CCC yn sicrhau fod y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar yr un pryd.

- 3.3.2.2. Cynhyrchir deunyddiau cyhoeddus cyfredol yn ddwyieithog pan gânt eu hadolygu neu eu hail argraffu.
- 3.3.2.3. Pan gyhoeddir dogfen gyda phris mewn fformat dwyieithog, ni fydd ei phris yn fwy na fersiwn iaith unigol o'r ddogfen honno a ni fydd pris y fersiwn Gymraeg yn fwy na phris y fersiwn Saesneg.
- 3.3.2.4. Rhoddir canllaw ysgrifenedig i staff, ymgynghorwyr, dylunwyr a chyhoeddwyr er mwyn iddynt ddelio gyda chyhoeddiadau dwyieithog.

### **3.3.3. Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiol**

- 3.3.3.1. Bydd ffurflenni a holiaduron sy'n cael eu hargraffu o'r newydd yn ddwyieithog h.y. gyda'r ddwy iaith yn yr un ddogfen. Lle bo'n bosibl, bydd testun Cymraeg a Saesneg ar yr un ffurflen. Fel arall, argreffir y ddwy iaith gefn wrth gefn neu, os nad yw hyn yn bosibl, bydd CCC yn sicrhau fod y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar yr un pryd.

### **3.3.4. Y wefan**

- 3.3.4.1. Bydd unrhyw wybodaeth ar wefan CCC ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd ac o'r un ansawdd.

## **3.4. Hysbysiadau i'r Wasg**

### **3.4.1. Hysbysebu a gweithgareddau cyhoeddusurwydd**

- 3.4.1.1. Cyhoeddir Datganiadau i'r Wasg yn ddwyieithog
- 3.4.1.2. Cynhelir cyfweiliadau yn Gymraeg pan fo hyn yn briodol. Oherwydd hyn, apwyntir llefarydd y wasg Gymraeg ei (h)iaith.
- 3.4.1.3. Bydd hysbysebion yn ddwyieithog, ac eithrio mewn cyhoeddiadau Cymraeg eu hiaith, pan fyddant yn Gymraeg yn unig.

## **3.5. Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus, hysbysebion recriwtio staff**

- 3.5.1. Bydd hysbysebion am swyddi yn ddwyieithog, ac eithrio mewn cyhoeddiadau Cymraeg eu hiaith, pan fyddant yn Gymraeg yn unig.
- 3.5.2. Bydd CCC yn annog siaradwyr Cymraeg i ymgeisio am swyddi cyflogedig a gwirfoddol.

## **4. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN**

### **4.1. Staffio (cyflogedig a gwirfoddol)**

- 4.1.1. Bydd CCC yn asesu pa sgiliau iaith sy'n angenrheidiol i bob gweithle ac ar gyfer pob gweithgaredd craidd er mwyn gweithredu'r cynllun hwn.
  - 4.1.1.1. Bydd disgrifiadau swyddi yn cynnwys cymal yn dweud a yw'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol, dymunol neu ddim yn angenrheidiol ar gyfer y swydd mewn golwg.

- 4.1.1.2. Bydd CCC yn cynnal arolwg o sgiliau iaith y staff ac yn cynnwys yr wybodaeth yma mewn rhestrau cyswllt mewnol er mwyn (a) gwneud defnydd llawn o'u sgiliau iaith a (b) cydnabod unrhyw ddiffyg sgiliau o fewn y tîm.
- 4.1.1.3. Delir gydag unrhyw ddiffygion mewn sgiliau iaith trwy hyfforddi'r staff presennol neu recriwio staff newydd fel bo'n briodol.
  - 4.1.1.3.1. Cynigir hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg i'r holl weithwyr, cyfarwyddwyr a gwirfoddolwyr.
  - 4.1.1.3.2. Caiff gweithwyr sydd ddim yn siarad Cymraeg hyfforddiant ar sut i ateb y ffôn yn ddwyieithog a sut i gyfeirio ymholiadau Cymraeg yn ogystal â sut i ynganu a sillafu enwau Cymraeg.
- 4.1.1.4. Pan yn recriwio gweithwyr, cyfarwyddwyr a gwirfoddolwyr newydd bydd CCC yn cymryd i ystyriaeth ofynion ieithyddol y swydd a'r tîm cyfan er mwyn galluogi gweithredu'r cynllun hwn.
- 4.1.1.5. Bydd CCC yn cefnogi staff sydd am wella eu sgiliau iaith fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaol.

## **4.2. Trefniadau gweinyddol**

### **4.2.1. Cyfrifoldeb**

- 4.2.1.1. Mabwysiadwyd Cynllun yr Iaith Gymraeg gan Fwrdd Cyfarwyddwyr CCC ar yr 16eg o Orffennaf 2007.
- 4.2.1.2. Gan y Prof Weithredwr mae'r cyfrifoldeb i sicrhau gweithredu a monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg.

### **4.2.2. Lledaeniad**

- 4.2.2.1. Bydd CCC yn sicrhau fod pawb yn y sefydliad yn gyfarwydd â'r cynllun ac yn gwybod sut i'w weithredu.
- 4.2.2.2. Cynhwysir Cynllun yr Iaith Gymraeg yn llawlyfr staff CCC a rhoddir copi i unrhyw weithwyr, cyfarwyddwyr neu wirfoddolwyr newydd fel rhan o'u proses ymgyfarwyddo.
- 4.2.2.3. Ymgynghorwyd â gweithwyr, cyfarwyddwyr a gwirfoddolwyr presennol yn ystod datblygiad y cynllun, a rhoddir copi o'r cynllun mabwysiedig iddynt.

## **4.3. Gwasanaethau a ddarperir ar ran y sefydliad gan eraill**

- 4.3.1. Bydd CCC yn monitro unrhyw wasanaethau dan gytundeb i eraill i sicrhau cydymffurfio â'r cynllun hwn.

## **4.4. Monitro**

### **4.4.1. Monitro ac adolygu**

- 4.4.1.1. Bydd y Prif Weithredwr yn monitro gweithredu'r cynllun yn unol â'r amserlen isod ac yn adrodd i Fwrdd y Cyfarwyddwyr a Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn flynyddol.
- 4.4.1.2. Bydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr yn adolygu'r cynllun bob tair blynedd.

#### 4.4.2. Cwynion

4.4.2.1. Cynhwysir cwestiwn ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg yn holiadur boddhad cleient CCC.

4.4.2.2. Dylid anfon cwynion swyddogol ac awgrymiadau at:

Y Prif Weithredwr  
Cymorth Cynllunio Cymru  
Siambrau'r Bae  
Stryd Gorllewin Bute  
Caerdydd CF10 5BB

Delir gydag unrhyw gwynion a dderbynnir gan Gymorth Cynllunio Cymru yn unol â threfnweithiau a pholisïau cwynion presennol.

#### 4.4.3. Cyhoeddi gwybodaeth

4.4.3.1. Cyhoeddir y Cynllun ar wefan CCC.

4.4.3.2. Cynhwysir adran ar y Cynllun yn Adroddiad Blynyddol CCC.

#### 4.4.4. Amserlen

<b>1. CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETH</b>	
<b>1.1. Polisiâu a Mentrau Newydd</b>	
1.1.1. Bydd CCC yn sicrhau bydd y polisiâu a'r mentrau newydd yn hwyluso'r defnydd o Gymraeg lle bynnag fo hyn yn bosibl a symud y sefydliad yn nes at weithredu'r egwyddor o gyfartaledd bob cyfle gaiff.	<i>er mabwysiadu</i>
1.1.2. Pan yn datblygu polisiâu a mentrau newydd neu'n adolygu rhai presennol bydd CCC yn asesu eu heffaith ieithyddol, gan sicrhau eu bod yn cydfynd â'r cynllun hwn ac yn sicrhau fod gweithredu ar y mesurau o fewn y cynllun hwn pan yn gweithredu polisiâu neu fentrau eraill.	<i>er mabwysiadu</i>
1.1.3. Bydd CCC yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg o flaen llaw parthed cynigion fydd yn effeithio ar y cynllun hwn neu fydd yn effeithio ar gynlluniau sefydliadau eraill.	<i>er mabwysiadu</i>
1.1.4. Ni fydd CCC yn newid y cynllun hwn heb gytundeb Bwrdd yr Iaith Gymraeg.	<i>er mabwysiadu</i>
1.1.5. Bydd CCC yn sicrhau fod staff a chynghorwyr sy'n ymwneud â chreu polisiâu'n ymwybodol o'r cynllun hwn.	<i>er mabwysiadu</i>
<b>1.2. Darpariaeth a Safon y Gwasanaeth yn Gymraeg</b>	
1.2.1. Bydd yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Mae CCC yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o safon uchel a chydardd yn Gymraeg a Saesneg.	<i>er mabwysiadu</i>
1.2.2. Bydd gweithredu'r cynllun hwn yn rhan annatod o holl weithgareddau CCC.	<i>er mabwysiadu</i>
1.2.3. Cyflawnir gweithredu'r cynllun trwy gynnwys gwariant a defnydd o adnoddau ar wasanaethau iaith Gymraeg yng nghyllideb cyffredinol gwasanaethau craidd a phrosiectau	<i>er mabwysiadu</i>

	CCC, a thrwy hyn, gwneud darpariaeth yn yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o weithgareddau CCC.	
<b>2.</b>	<b>DELIO GYDA'R CYHOEDD CYMRAEG EU HIAITH</b>	
<b>2.1.</b>	<b>Cyfathrebu Ysgrifenedig</b>	
2.1.1.	Mae CCC yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.	<i>arfer presennol</i>
2.1.2.	Bydd llythyrau ac e-byst a dderbynir yn cael eu hateb yn yr iaith a ddefnyddir yn yr ohebiaeth wreiddiol. Ni fydd amser ymateb i ohebiaeth Gymraeg yn hwy nag i ohebiaeth Saesneg.	<i>erbyn Mawrth 2009</i>
2.1.3.	Cynhwysir gwybodaeth ar hoff iaith/ieithoedd y gohebydd ar gyfer gohebiaeth yng nghronfa data cyswllt CCC a bydd CCC yn dewis pa iaith/ieithoedd gohebiaeth ar gyfer y gohebydd.	<i>erbyn Mawrth 2008 ar gyfer gohebiaeth gyda chlientiau; erbyn Mawrth 2010 ar gyfer pob gohebiaeth</i>
2.1.4.	Bydd cylch-lythyrau a llythyrau safonol i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.	<i>erbyn Mawrth 2008 ar gyfer gohebiaeth gyda chlientiau; erbyn Mawrth 2010 ar gyfer pob gohebiaeth</i>
2.1.5.	Bydd llofnodion e-bost yn ddwyieithog.	<i>arfer presennol</i>
<b>2.2.</b>	<b>Cyfathrebu ar y Ffôn</b>	
2.2.1.	Cyferchir pob galwr i'r llinell gymorth yn ddwyieithog.	<i>erbyn Mawrth 2008</i>
2.2.2.	Os yw galwr i'r llinell gymorth am siarad â rhywun sy'n siarad Cymraeg ac efallai nad yw'r person sy'n ateb y ffôn yn siarad Cymraeg eu hunain, cyfeirir y galwr at weithiwr/wraig neu wirfoddolwr/wraig Cymraeg eu hiaith ar unwaith neu, os nad yw hyn yn bosibl bydd gweithiwr/wraig neu wirfoddolwr/wraig sy'n siarad Cymraeg yn ffonio'n ôl ar adeg sy'n gyfleus i'r galwr.	<i>erbyn Mawrth 2008</i>
<b>2.3.</b>	<b>Cyfarfodydd Cyhoeddus</b>	
2.3.1.	Mae CCC yn ymrwymedig i sicrhau fod pobl sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau hyfforddi yn gallu ac yn cael eu croesawu i gyfrannu yn Gymraeg neu Saesneg, ac i adael iddynt wybod o flaen llaw eu bod yn gallu gwneud hynny.	<i>erbyn Mawrth 2010</i>
2.3.2.	Bydd CCC yn sefydlu beth yw hoff iaith y cyfranogwyr cyn pob cyfarfod cyhoeddus a digwyddiad hyfforddi ac yn trefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd os bydd angen.	<i>erbyn Mawrth 2010</i>

2.3.3.	Os bydd cyfranogwr yn dymuno siarad yn Gymraeg pan nad oes cyfieithydd ar y pryd ar gael, bydd yr hwylusydd yn sicrhau y ceir eu cyfraniad ei gyfieithu er budd unrhyw gyfranogwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg.	<i>erbyn Mawrth 2010</i>
2.3.4.	Bydd deunyddiau cyflwyno CCC yn ddwyieithog.	<i>erbyn Mawrth 2010</i>
<b>2.4. Cyfarfodydd nad ydynt yn gyhoeddus</b>		
2.4.1.	Rhoddir dewis i gleientiaid a ydynt am drafod eu hachos yn Saesneg neu yn Gymraeg a neilltuir aelod staff neu wirfoddolwr/wraig gyda'r sgiliau iaith perthnasol i ddelio gyda'u hachos.	<i>erbyn Mawrth 2008</i>
<b>2.5. Cyfathrach arall gyda'r cyhoedd</b>		
2.5.1.	Bydd cynrychiolwyr CCC Cymraeg eu hiaith mewn ffeiriau ac arddangosfeydd yn gwisgo bathodyn Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn dangos eu bod yn hapus i sgwrsio yn Gymraeg.	<i>erbyn Mawrth 2008</i>
<b>3. WYNEB CYHOEDDUS CYMORTH CYNLLUNIO CYMRU</b>		
<b>3.1. Delwedd neu hunaniaeth corfforaethol</b>		
3.1.1.	Bydd CCC yn mabwysiadu a chyflwyno hunaniaeth gorfforaethol gwbl ddwyieithog yn cynnwys yr enw, cyfeiriad, logo a datganiad cenhadaeth ar holl ddeunyddiau'r sefydliad, yn cynnwys papur gohebu, cardiau busnes a.y.y.b.	<i>pan yn ail-brintio</i>
<b>3.2. Arwyddion a deunyddiau arddangosfa</b>		
3.2.1.	Bydd holl arwyddion cyhoeddus a deunyddiau arddangosfa yn ddwyieithog. Bydd print Cymraeg a Saesneg yn union yr un maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd.	<i>erbyn Mawrth 2010</i>
3.2.2.	Ar fyrddau arddangos bydd gwybodaeth yn cael ei arddagnos yn y ddwy iaith ochr yn ochr.	
<b>3.3. Cyhoeddi ac Argraffu deunydd i'w roi i'r cyhoedd</b>		
<b>3.3.1. Egwyddorion cyffredinol</b>		
3.3.1.1.	Cynhyrchir holl ddeunydd argraffedig ac arwyddion ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog a bydd eu hygyrchedd yn gyfartal	<i>pan yn ail-brintio</i>
3.3.1.2.	Bydd print Cymraeg a Saesneg yn ymddanogs yr un faint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd.	<i>arfer presennol</i>
3.3.1.3.	Bydd deunydd yn y ddwy iaith o'r un safon	<i>pan yn ail-</i>

	proffesiynol.	<i>brintio</i>
3.3.1.4.	Ymgymerir â chyfieithu gan gyfieithwyr proffesiynol, profiadol.	<i>arfer presennol</i>
<b>3.3.2.</b>	<b>Deunyddiau argraffedig</b>	
3.3.2.1.	Bydd pob deunydd cyhoeddus argraffedig megis llawlyfrau, Adroddiadau Blynyddol, taflenni a datganiadau, yn ddwyieithog h.y. gyda'r ddwy iaith yn yr un ddogfen, ac un bob ochr i'r ddalen yn ddelfrydol. Os nad yw'n bosibl cyhoeddi dogfen mewn fformat dwyieithog, bydd CCC yn sicrhau fod y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar yr un pryd.	<i>pan yn ail-brintio</i>
3.3.2.2.	Cynhyrchir deunyddiau cyhoeddus cyfredol yn ddwyieithog pan gânt eu hadolygu neu eu hail argraffu.	<i>pan yn ail-brintio</i>
3.3.2.3.	Pan gyhoeddir dogfen gyda phris mewn fformat dwyieithog, ni fydd ei phris yn fwy na fersiwn iaith unigol o'r ddogfen honno a ni fydd pris y fersiwn Gymraeg yn fwy na phris y fersiwn Saesneg.	<i>arfer presennol</i>
3.3.2.4.	Rhoddir canllaw ysgrifenedig i staff, ymgynghorwyr, dylunwyr a chyhoeddwyr er mwyn iddynt ddelio gyda chyhoeddiadau dwyieithog.	<i>erbyn Mawrth 2008</i>
<b>3.3.3.</b>	<b>Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiol</b>	
3.3.3.1.	Bydd ffurflenni a holiaduron sy'n cael eu hargraffu o'r newydd yn ddwyieithog h.y. gyda'r ddwy iaith yn yr un ddogfen. Lle bo'n bosibl, bydd testun Cymraeg a Saesneg ar yr un ffurflen. Fel arall, argreffir y ddwy iaith gefn wrth gefn neu, os nad yw hyn yn bosibl, bydd CCC yn sicrhau fod y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar yr un pryd.	<i>pan yn ail-brintio</i>
<b>3.3.4.</b>	<b>Y wefan</b>	
3.3.4.1.	Bydd unrhyw wybodaeth ar wefan CCC ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd ac o'r un ansawdd.	<i>erbyn Mawrth 2008 ar gyfer cynnwys parhaol;</i> <i>erbyn Mawrth 2010 ar gyfer pob cynnwys</i>
<b>3.4.</b>	<b>Hysbysiadau i'r Wasg</b>	
<b>3.4.1.</b>	<b>Hysbysebu a gweithgareddau cyhoeddusrwydd</b>	
3.4.1.1.	Cyhoeddir Datganiadau i'r Wasg yn ddwyieithog	<i>erbyn Mawrth 2008</i>
3.4.1.2.	Cynhelir cyfweiliadau yn Gymraeg pan fo hyn yn briodol. Oherwydd hyn, apwyntir llefarydd y wasg Cymraeg ei (h)iaith.	<i>erbyn Mawrth 2008</i>
3.4.1.3.	Bydd hysbysebion yn ddwyieithog, ac eithrio mewn cyhoeddiadau Cymraeg eu hiaith, pan fyddant yn Gymraeg yn unig.	<i>erbyn Mawrth 2009</i>

<b>3.5. Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus, hysbysebion recriwtio staff</b>	
3.5.1. Bydd hysbysebion am swyddi yn ddwyieithog, ac eithrio mewn cyhoeddiadau Cymraeg eu hiaith, pan fyddant yn Gymraeg yn unig.	<i>erbyn Mawrth 2008</i>
3.5.2. Bydd CCC yn annog siaradwyr Cymraeg i ymgeisio am swyddi cyflogedig a gwirfoddol.	<i>erbyn Mawrth 2008</i>
<b>4. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN</b>	
<b>4.1. Staffio (cyflogedig a gwirfoddol)</b>	
4.1.1. Bydd CCC yn asesu pa sgiliau iaith sy'n angenrheidiol i bob gweithle ac ar gyfer pob gweithgaredd craidd er mwyn gweithredu'r cynllun hwn.	<i>erbyn Mawrth 2008</i>
4.1.1.1. Bydd disgrifiadau swyddi yn cynnwys cymal yn dweud a yw'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol, dymunol neu ddim yn angenrheidiol ar gyfer y swydd mewn golwg.	<i>erbyn Mawrth 2008</i>
4.1.1.2. Bydd CCC yn cynnal arolwg o sgiliau iaith y staff ac yn cynnwys yr wybodaeth yma mewn rhestrau cyswllt mewnol er mwyn (a) gwneud defnydd llawn o'u sgiliau iaith a (b) cydnabod unrhyw ddifyg sgiliau o fewn y tîm.	<i>erbyn Mawrth 2008</i>
4.1.1.3. Delir gydag unrhyw ddifygion mewn sgiliau iaith trwy hyfforddi'r staff presennol neu recriwtio staff newydd fel bo'n briodol.	<i>erbyn Mawrth 2009</i>
4.1.1.3.1. Cynigir hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg i'r holl weithwyr, cyfarwyddwyr a gwirfoddolwyr.	<i>hyfforddiant sylfaenol erbyn Mawrth 2008;</i> <i>hyfforddiant llawn erbyn Mawrth 2009</i>
4.1.1.3.2. Caiff gweithwyr sydd ddim yn siarad Cymraeg hyfforddiant ar sut i ateb y ffôn yn ddwyieithog a sut i gyfeirio ymholiadau Cymraeg yn ogystal â sut i ynganu a sillafu enwau Cymraeg.	<i>hyfforddiant sylfaenol erbyn Mawrth 2008;</i> <i>hyfforddiant llawn erbyn Mawrth 2009</i>
4.1.1.4. Pan yn recriwtio gweithwyr, cyfarwyddwyr a gwirfoddolwyr newydd bydd CCC yn cymryd i ystyriaeth ofynion ieithyddol y swydd a'r tîm cyfan er mwyn galluogi gweithredu'r cynllun hwn.	<i>erbyn Mawrth 2009</i>
4.1.1.5. Bydd CCC yn cefnogi staff sydd am wella eu sgiliau iaith fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaol.	<i>erbyn Mawrth 2009</i>
<b>4.2. Trefniadau gweinyddol</b>	
<b>4.2.1. Cyfrifoldeb</b>	
4.2.1.1. Mabwysiadwyd Cynllun yr Iaith Gymraeg gan	

Fwrdd Cyfarwyddwyr CCC ar 16eg o Orffnaf 2007.		
4.2.1.2.	Gan y Prif Weithredwr mae'r cyfrifoldeb i sicrhau gweithredu a monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg.	<i>from adoption</i>
<b>4.2.2.</b>	<b>Lledaeniad</b>	
4.2.2.1.	Bydd CCC yn sicrhau fod pawb yn y sefydliad yn gyfarwydd â'r cynllun ac yn gwybod sut i'w weithredu.	<i>erbyn Mawrth 2008</i>
4.2.2.2.	Cynhwysir Cynllun yr Iaith Gymraeg yn llawlyfr staff CCC a rhoddir copi i unrhyw weithwyr, cyfarwyddwyr neu wirfoddolwyr newydd fel rhan o'u proses ymgwyfarwyddo.	<i>erbyn Mawrth 2008</i>
4.2.2.3.	Ymgynghorwyd â gweithwyr, cyfarwyddwyr a gwirfoddolwyr presennol yn ystod datblygiad y cynllun, a rhoddir copi o'r cynllun mabwysiedig iddynt.	<i>erbyn Mawrth 2008</i>
<b>4.3.</b>	<b>Gwasanaethau a ddarperir ar ran y sefydliad gan eraill</b>	
4.3.1.	Bydd CCC yn monitro unrhyw wasanaethau dan gytundeb i eraill i sicrhau cydymffurfio â'r cynllun hwn.	<i>erbyn Mawrth 2008</i>
<b>4.4.</b>	<b>Monitro</b>	
<b>4.4.1.</b>	<b>Monitro ac adolygu</b>	
4.4.1.1.	Bydd y Prif Weithredwr yn monitro gweithredu'r cynllun yn unol â'r amserlen isod ac yn adrodd i Fwrdd y Cyfarwyddwyr a Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn flynyddol.	<i>er mabwysiadu</i>
4.4.1.2.	Bydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr yn adolygu'r cynllun bob tair blynedd.	<i>er mabwysiadu</i>
<b>4.4.2.</b>	<b>Cwynion</b>	
4.4.2.1.	Cynhwysir cwestiwn ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg yn holiadur boddhad cleient CCC.	<i>pan yn ail-brintio</i>
4.4.2.2.	Dylid anfon cwynion swyddogol ac awgrymiadau at:  Y Prif Weithredwr Cymorth Cynllunio Cymru Siambrau'r Bae Stryd Gorllewin Bute Caerdydd CF10 5BB  Delir gydag unrhyw gwynion a dderbynnir gan Gymorth Cynllunio Cymru yn unol â threfnweithiau a pholisïau cwynion presennol.	<i>er mabwysiadu</i>
<b>4.4.3.</b>	<b>Cyhoeddi gwybodaeth</b>	
4.4.3.1.	Cyhoeddir y Cynllun ar wefan CCC.	<i>erbyn Mawrth 2008</i>
4.4.3.2.	Cynhwysir adran ar y Cynllun yn Adroddiad Blynyddol CCC.	<i>er mabwysiadu</i>